OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2914

# Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## RHAN 1

*Cyflwyniad*

### Teitl, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005, ar wahân i baragraff (2) o reoliad 2, a rheoliad 38 ac Atodlen 6, a ddeuant i rym ar 1 Ionawr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dirymiadau, arbedion a diwygiadau

**2.**—(1) Dirymir drwy hyn Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Trawsnewid i Fframwaith Newydd) 1998(**1**).

(2) Dirymir Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999(**2**) yn effeithiol o 1 Ionawr 2006, ac eithrio'r darpariaethau canlynol sy'n parhau mewn grym yn achos pob ysgol a gynhelir hyd nes y gwneir offeryn llywodraethu newydd i'r ysgol yn unol â rheoliad 33—

Rheoliad 1 ar wahân i'r geiriau “and new schools” ym mharagraff (3);

Rheoliad 2(1) ar wahân i'r diffiniadau o “the First Transitional Regulations”, “new school” “School Organisation Regulations” a “the Second Transitional Regulations”;

Rheoliad 2(2) ar wahân i'r diffiniadau o “temporary governing body” a “temporary governors”;

Rheoliad 3 ar wahân i'r geiriau “or temporary governing body (however constituted)” ac “or (as the case may be) new school”;

Rheoliad 4 ar wahân i'r geiriau mewn cromfachau, ac yn eu lle hwy rhoddir y geiriau “in accordance with the 1998 Act”;

Rheoliad 5(1) (a) ar wahân i'r geiriau “or will maintain” ac “or a new school”; ac ar ôl y geiriau “for which an instrument of government has been made” ychwanegir y geiriau “in accordance with the 1998 Act”;

Rheoliad 5(2) (i), (iii) a (iv), ar wahân i'r geiriau “and (b)” a'r geiriau “or, in the case of a new school which has not opened, the diocesan authority which will be the appropriate diocesan authority when the school opens”;

Rheoliad 6(1) ac Atodlen 1;

Rheoliadau 9 i 12 ac Atodlenni 2 i 4;

Rheoliad 15 ar wahân i'r geiriau “Subject to Part VIII (transitional provisions), Schedule 6 sets”, ac yn eu lle hwy rhoddir “Paragraphs (12) to (16) of Schedule 6 to these Regulations

(**1**) O.S. 1998/2763, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/362, 1999/2242 (Cy.2), 2001/2263 (Cy.164).
(**2**) O.S. 1999/2242 (Cy. 2) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2263 (Cy.164) .

and Schedule 5 to the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 set", a pharagraffau (12) i (16) o Atodlen 6;

Rheoliadau 16 a Rheoliadau 17;

Rheoliad 18 ac eithrio ym mharagraff (1) y geiriau "and to Part VIII (transitional provisions)"; a

Rheoliadau 19 ac 20.

(3) Diwygir paragraff (1) o reoliad 31 o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999(**3**), drwy roi'r geiriau "Part 5 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005" yn lle'r geiriau "Schedule 12 to the 1998 Act".

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

dehonglir "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yn unol ag adran 122 o Ddeddf 2002;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**4**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr "bank holiday" yn Neddf Bancio a Deliadau Ariannol 1971(**6**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at y corff llywodraethu neu at gorff llywodraethu ysgol yn gyfeiriad at gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(b) at lywodraethwr yn gyfeiriad at aelod o gorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(c) at yr awdurdod addysg lleol yn gyfeiriad at yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at reoliad, Rhan neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad, Rhan neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad neu'r Atodlen y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt;

(c) at is-baragraff â rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

(**3**) O.S. 1999/2243; diwygir y rheoliad hwn hefyd gan reoliad 8 yn Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol etc (Cymru) 2005, O.S. 2005/2913 (Cy. 210).
(**4**) 1996 p.56.
(**5**) 1998 p.31.
(**6**) 1971 p.80.